Uned 4F: E-bost – Defnyddio'r Llyfr Cyfeiriadau, Atodiadau a Chamerau Digidol

Ynglyn â'r Uned :

Yn yr uned hon mae plant yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u defnydd o e-bost (post electronig) i anfon a derbyn negeseuon. Maen nhw'n dysgu'r pwysigrwydd o greu a defnyddio llyfrau cyfeiriadau a dysgu sut i gysylltu ffeiliau i anfon gyda'u e-byst fel atodiadau. Maen nhw'n duysgu sut i ddefnyddio camera digidol i dynnu delweddau a'u cadw yn briodol i'w defnyddio fel atodiadau.

Mae defnyddio e-byst yn gallu helpu plant i ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu a datblygu eu gwybodaeth o'r gymuned ehangach. Mae'r uned yn gofyn am gydweithio gydag ysgolion eraill yn ogystal â'r posibiliadau cyffrous o gydweithio gydag ysgolion mewn gwledydd eraill.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ddefnyddio e-bost, casglu gwybodaeth, datblygu prosiectau cydweithrediadol, ac ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd eraill. Mae'n gallu cefnogi gwaith mewn llawer o feysydd cwricwlwm.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar Uned 3E: E-bost

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant yn gallu:

- anfon, derbyn ac ymateb i e-byst
- yn gyfarwydd ag ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a darllen gwaith plant eraill.

Geirfa:

E-bost | Creu | Agor| Cyfeiriad | Mewnflwch | Blwch Allan | Anfonwyd | Dileu | Ymateb | Atodiad | Ffeil | Pwnc | .jpg |

Adnoddau:

E-bost gyda llyfr cyfeiriad | ffeiliau prosesu geiriau | ffotograffau digidol neu luniau sydd wedi'u creu mewn pecyn graffeg |

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: datblygu a mireinio negeseuon testun, anfon, derbyn ac ymateb i e-byst gydag atodiadau a defnyddio llyfr cyfeiriadau

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: derbyn ac ymateb i e-byst a defnyddio llyfr cyfeiriadau i ddod o hyd i gyfeiriad.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: datblygu a mireinio negeseuon testun, anfon, derbyn ac ymateb i e-byst gydag atodiadau a chreu a defnyddio llyfr cyfeiriadau. Byddant yn gallu defnyddio camera digidol i dynnu lluniau, eu cadw yn briodol a'u defnyddio fel atodiadau.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod e-bost yn gallu cael ei ddefnyddio i anfon atodiadau gyda negeseuon dros bellterau • **techneg:** bod yr e-byst yn cael eu hanfon at gyfeiriadau.	• Trafodwch y profiadau y mae'r plant wedi'u cael o ddefnyddio e-bost. Dangoswch i'r plant fod e-bost yn gallu cynnwys atodiad. Dangoswch drwy agor rhai atodiadau i'w dangos i'r dosbarth. Sicrhewch fod amrywiaeth o fathau gwahanol o ffeiliau gennych e.e. ffotograff digidol, llun sydd wedi'i greu gan becyn graffeg, a rhai enghreifftiau o ddogfennau wedi'u llunio ar brosesydd geiriau, rhai'n cynnwys lluniau a rhai hebddynt. Dywedwch wrth y plant eu bod yn mynd i ddefnyddio e-bost i anfon negeseuon i ysgol arall, ond nawr bydd ffeiliau'n cael eu cysylltu wrthynt.	• Ddeall y gellir anfon negeseuon dros bellterau ac maent yn gallu cynnwys gwtbodaeth ychwanegol ar ffurf atodiad. • Deall bod mathau gwahanol o ffeiliau y gellir eu hanfon fel atodiadau. • Gwybod ble i ddod o hyd i gyfeiriad yr anfonwr a deall bod e-byst yn cael eu hanfon at gyfeiriadau.	Hysbysu'r plant na all peiriannau nad oes ganddynt yr un meddalwedd ddarllen atodiadau • Dynodi delweddau ffotograffeg fel ffeiliau jpeg.
Tasgau byr wedi'u Ffocysu • **syniad allweddol:** bod e-byst yn cael eu hanfon at gyfeiriadau • **techneg:** anfon e-bost gan ddefnyddio llyfr cyfeiriadau.	• Paratowch lyfr cyfeiriadau gyda nifer o gyfeiriadau e-bost ynddo. Atgoffwch y plant fod y cyfeiriadau'n sicrhau bod yr e-bost yn cael eu derbyn gan y person cywir. Pwysleisiwch pa mor bwysig ydyw i ysgrifennu cyfeiriad yr e-bost yn gywir. Gellir dangos hyn drwy anfon e-bost at gyfrifiadur y dosbarth gyda chamsyniad teipio yn y cyfeiriad. Byddai'r plant yn gweld y byddent yn cael neges e-bost yn ôl a fyddai'n dweud bod y cyfeiriad yn anghywir. Atgoffwch nhw eu bod yn gallu edrych yn eu bocs Anfonwyd i weld cofnod o'r e-bost a anfonwyd. • Dangoswch sut i anfon neges drwy ddewis cyfeiriad e-bost o'r llyfr cyfeiriadau. • Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i gyfathrebu gydag ysgol arall, *e.e. dysgu am eu hysgol neu'r ardal gyferbyniol.* Gofynnwch iddynt ddarganfod rhywbeth am yr ysgol neu'r ardal drwy lunio holiaduron i'w gyrru fel e-bost atynt (fel testun corff). Gallai cwestiynau addas gynnwys: *Ydy'ch ysgol mewn ardal drefol neu wledig; pa nodweddion lleol gellir cael eu disgrifio; pa mor fawr yw eu hysgol? etc.* Pan fydd yr atebion yn cael eu derbyn, gofynnwch i'r plant eu hargraffu a meddwl am unrhyw gwestiynau pellach y mae angen iddynt eu gofyn.	• Anfon e-byst gan ddefnyddio llyf cyfeiriadau • Defnyddio'r Mewnflwch, Anfonwyd, Blwch Allan a folderi Dileu.	• Gellir dangos i'r plant sy'n defnyddio e-bost yn hyderus sut i ychwanegu cyfeiriadau at y llyfr cyfeiriadau. • Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn ag unrhyw weithgaredd casglu data.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u Ffocysu (Parhad.)			
• **syniad allweddol:** bod camera digidol yn gallu cael ei ddefnyddio i anfon atodiadau i gyfathrebu gwybodaeth • **techneg:** gallu defnyddio camera digidol i gymryd delweddau a chadw'r ffotograffau fel ffeiliau ar gyfrifiadur.	• Dangos i'r plant sut i ddefnyddio camera digidol. Gofynnwch iddynt dynnu lluniau o'r ysgol a'r tiroedd i anfon at blant mewn ysgol arall. Gall hwn fod yn rhan o brosiect cyfnewid gwybodaeth gydag ysgol mewn ardal gyferbyniol. Gallai'r plant weithio mewn grwpiau bach a phenderfynu ble yn yr ysgol y byddant yn tynnu lluniau. • Unwaith mae'r plant wedi tynnu'r ffotograffau, gellir dangos iddynt sut i'w trosglwyddo i gyfrifiadur. Wedyn dylid dangos iddynt sut i enwi'r ffeiliau yn gall, er mwyn iddynt ddod o hyd i'r lluniau yn ddiweddarach wrth ddefnyddio atodiadau.	• Ddefnyddio camera digidol i dynnu lluniau ar gyfer tasg sydd wedi'i threfnu ymlaen llaw • Trosglwyddo'r ffotograffau i gyfrifiadur • Ail-enwi'r ffeiliau os oes angen, er mwyn dod o hyd iddynt a'u defnyddio fel atodiadau.	• Efallai bydd rhai plant yn ei chael yn anodd i drosglwyddo'r ffotograffau o gamera i gyfrifiadur ac ail-enwi'r ffeiliau ac efallai bydd angen cymorth arnynt unwaith maen nhw wedi tynnu'r lluniau. • Dylid annog plant mwy galluog i greu ffolderi y gellir cadw eu gwaith ynddynt.
Tasgau byr wedi'u Ffocysu (Parhad.)			
• **techneg:** ychwanegu atodiad at e-bost.	• Atgoffwch y plant sut i anfon e-byst. Dangoswch iddynt sut i ymgysylltu ffeil llun ag e-bost. Gofynnwch i'r plant ymgysylltu un o'u ffotograffau ag e-bost y maen tyn ei anfon at ysgol arall gan roi gwybodaeth am y ffotograff a dyfeisio cwestiynau i'r ysgol bartner eu hateb. • Gofynnwch i'r plant gysylltu gwaith y maen nhw wedi'i wneud mewn uned arall ag e-bost a'i anfon at rywun gan ofyn am sylwadau arno, fel llun sydd wedi'i greu mewn pecyn graffeg neu ddisgrifiad ysgrifenedig o waith a wnaed sy'n gysylltiedig â thema neu bwnc.	• Cysylltu'r ffeiliau ag e-byst	• Pwysleisio'r ffaith nad yw peiriannau sydd â meddalwedd anghydnaws yn gallu darllen atodiadau.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu			
• Casglu,cyfnewid a datblygu gwybodaeth gan ddefnyddio e-bost. • Defnyddio ffotograffau camera digidol a ffeiliau sydd wedi'u creu mewn unedau eraill fel atodiadau mewn e-byst. • Defnyddio llyfr cyfeiriadau i fwydo cyfeiriad i mewn yn gywir.	• Gellir defnyddio'r technegau a ddysgwyd yn yr uned hon i wella gwaith ym mhob uned sydd yn dilyn. Rhoddir rhai awgrymiadau yng ngholofn 'Sylwch' unedau eraill. • Gallai plant yrru e-byst at ddisgylion mewn ysgol arall a gofyn iddynt ymateb gyda disgrifiadau ysgrifenedig o greaduriaid neu anghenfilod dychmygol. (Gellir defnyddio disgrifiadau Cymraeg yn ogystal â Saesneg). Gellir argraffu'r e-byst hyn i ddadansoddi a thrafod y disgrifiadau. • Yna byddai'r plant yn creu lluniau o'r e-byst a gyrru eu lluniau yn ôl fel atodiadau. Gellid defnyddio pecynnau graffeg, ffotograffau digidol o collage a darluniau neu ddelweddau sydd wedi'u sganio. Gellid cynnal trafodaeth rhwng yr ysgolion ac ymhlith y dosbarth ynghylch pa mor gywir mae'r lluniau o'u cymharu â'r ysgrifennu disgrifiad gwreiddiol. Mae'r gweithgaredd hwn yn darparu cyfle i waith mawl ar ansoddeiriau ac ysgrifennu disgrifiadol – cysylltwch â'r Saesneg. Hefyd ceir cysylltiadau â Chelf a'r Gymraeg.	• Greu ac ymateb i e-byst i gasglu gwybodaeth a chyfathrebu gydag eraill gan ddefnyddio atodiadau. • Defnyddio llyfr cyfeiriadau.	

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA